**EITEM AR YR AGENDA: 11**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**21ain Mawrth 2011**

## CRYNODEB O AMCANION Y CYNLLUN I LEIHAU RISG A GWELLA A'R STRATEGAETH ADNODDAU AR GYFER 2011-12

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Crynhoi, ar gyfer yr aelodau, yr amcanion ar gyfer 2011-12 sydd yn y Cynllun i Leihau Risg a Gwella 2009-12, ynghyd â'r rhai sydd yn y Strategaeth Adnoddau, yn deillio o'r penderfyniadau cyllidebol a wnaed gan yr Awdurdod.

## Y Cefndir

2 Roedd Mesur Llywodraeth Leol 2009 ('y Mesur') yn ehangu'r diffiniad o wella, ac yn annog Awdurdodau Gwella Cymreig i bennu eu hamcanion gwella eu hunain o dan unrhyw saith elfen ddiffiniedig o wella.

3 Mae canllawiau Cynllunio i Leihau Risg yn hyrwyddo mabwysiadu proses flynyddol i bennu'r risgiau corfforaethol a chymunedol sy'n wynebu'r Awdurdod, a datblygu cynlluniau gweithredu i'w rheoli.

4 Mae gofyn i'r Awdurdod bennu ei gyllideb bob blwyddyn erbyn 15 Chwefror yn y flwyddyn sy'n dod cyn y flwyddyn y mae'n ymwneud â hi.

## Gwybodaeth

5 Wedi ystyried ystod eang o wybodaeth, fe ddatblygodd ac fe gytunodd yr Awdurdod ar set o saith Amcan Gwella i weithio tuag atynt o Ebrill 2011 ymlaen. Maent wedi eu cynnwys yn Adran 4 Cynllun Cyfunol yr Awdurdod i Leihau Risg a Gwella 2009-12 a gyhoeddwyd ar ddiwedd mis Hydref 2010.

6 Datblygwyd tri amcan arall yn deillio’n uniongyrchol o benderfyniad yr Awdurdod yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr i gael 2.5% o ostyngiad yn y gyllideb bob blwyddyn am y 3 blynedd nesaf, sy’n golygu mewn gwirionedd fod y gyllideb yn cael ei rhewi ar £32 miliwn am y cyfnod hwnnw.

7 Parheir i ddilyn yr amcanion y cytunwyd arnynt ar gyfer y cyfnod o Ebrill 2011.

8 Bydd cyfarfodydd mewnol chwarterol yn darparu fforwm ar gyfer monitro, yn ôl y drefn arferol, y camau sydd yn yr arfaeth ar gyfer cyflawni’r amcanion, a bydd monitro allanol yn rhan o Archwiliad Gwella Swyddfa Archwilio Cymru.

**Argymhelliad**

9 Bod yr Aelodau’n:
- (i) nodi’r saith o Amcanion Gwella; ac yn
- (ii) cymeradwyo’r tri o Amcanion y Strategaeth Adnoddau ar gyfer y flwyddyn 2011-12 fel y dangosir yn Atodiad 1.

ATODIAD 1

| | |
|---|---|
| | **Amcanion y Cynllun i Leihau Risg / Gwella 2011-12** |
| | |
| **AMC 1** | Cynorthwyo i gadw pobl a chymunedau'n ddiogel trwy atal marwolaethau ac anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi. |
| | |
| **AMC 2** | Cynorthwyo i leihau'r risg o danau'n digwydd yn ddamweiniol mewn eiddo annomestig, fel bod gweithgarwch arferol yn gallu parhau ac nad yw bywydau pobl sy'n ymweld ac yn gweithio yno'n cael eu rhoi mewn perygl.. |
| | |
| **AMC 3** | Cynorthwyo i leihau'r perygl a'r difrod a achosir gan argyfyngau nad ydynt yn danau, megis llifogydd, gwrthdrawiadau ar y ffyrdd, a digwyddiadau cemegol. |
| | |
| **AMC 4** | Cynorthwyo i fynd i'r afael â phroblemau llosgi bwriadol fel nad yw pobl, cymunedau, busnesau, yr amgylchedd a threftadaeth yr ardal yn cael eu rhoi mewn perygl. |
| | |
| **AMC 5** | Canolbwyntio ar wella datblygiad cynaliadwy'r Awdurdod trwy gael y cydbwysedd iawn rhwng effaith amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol darparu gwasanaeth tân ac achub. |
| | |
| **AMC 6** | Dod yn well am adnabod ac ymgysylltu â phobl a allai eu cael eu hunain dan anfantais gymdeithasol a/neu economaidd, fel ein bod yn gallu gwella eu synnwyr o les, a lleihau'r risg i'w diogelwch personol. |
| | |
| **AMC 7** | Sicrhau bod trefniadau Cynllunio a Rheoli Parhad Busnes y Gwasanaeth mor gynhwysfawr a sicr ag y gallent fod. |
| | |
| | **Amcanion y Strategaeth Adnoddau 2011-12** |
| | |
| **AMC A** | Newid rhai agweddau ar strwythur a ffyrdd o weithio yn y sefydliad. |
| | |
| **AMC B** | Adolygu a gwella'r prosesau busnes mewnol. |
| | |
| **AMC C** | Cynllunio a pharatoi ar gyfer y gostyngiad yn y gyllideb yn 2012-13. |